# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Adolygu Dalgylch Ysgol Felinwnda |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Debbie Ann Williams Jones, Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Chwefror 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar adolygu dalgylch Ysgol Felinwnda, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad, a phenderfynu a ddylid cymeradwyo'r opsiwn ffafriedig, sef:

*'Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd'*

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Yn sgil gweithredu'r penderfyniad i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, mae angen penderfyniad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol/ysgolion fydd yn gwasanaethu fel ysgol/ysgolion dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1. Cefndir/Cyflwyniad**

Yn arferol, gwneir y penderfyniad ar yr ysgol ddalgylch newydd fel rhan o'r broses statudol o gau ysgol. Yn yr achos hwn, mewn ymateb i bryderon lleol, penderfynodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023, y dylid cynnal adolygiad o'r dalgylch fel proses ar wahân ar ôl cwblhau'r broses statudol, os mai'r penderfyniad terfynol fyddai cau Ysgol Felinwnda.

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, yn ogystal â chaniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

**3.2. Yr Ymgynghoriad**

Fel rhan o'r broses o adolygu dyfodol dalgylch Felinwnda, cynhaliwyd ymgynghoriad ar opsiynau ar gyfer dyfodol y dalgylch, gyda'r ymgynghorai perthnasol rhwng 24 Medi a 22 Hydref 2024. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal yr ymgynghoriad yn ystod tymor yr haf 2024, ond yn sgil effaith yr etholiad, bu rhaid oedi'r ymgynghoriad hyd fis Medi.

Roedd yr ymgynghorai perthnasol yn cynnwys:

- Holl breswylwyr dalgylch presennol Ysgol Felinwnda,
- Cyrff Llywodraethol Ysgol Llandwrog, Ysgol Bontnewydd, Ysgol Bro Llifon ac Ysgol Rhostryfan
- Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda
- Cyngor Cymuned Llanwnda
- Aelod Lleol Ward Llanwnda
- Canolfan Bro Llanwnda, ac
- Yr Eglwys yng Nghymru

Ar 20 Medi 2024 anfonwyd llythyr i bob annedd/cartref yn nalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn eu hysbysu ynglŷn â'r ymgynghoriad, ac i egluro sut i gymryd rhan. Anfonwyd hysbysiad ar ffurf e-bost at weddill yr ymgynghorai a restrir uchod. Roedd yr hysbysiad yn cynnwys linc at dudalen benodol ar wefan Cyngor Gwynedd, ble cyhoeddwyd dogfennaeth yr ymgynghoriad ynghyd â'r ffurflen ymateb.

Yna, ar 24 Medi, cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori, ffurflen ymateb a'r asesiadau effaith cysylltiedig ar wefan Cyngor Gwynedd. Roedd yr asesiadau effaith yn cynnwys:

- Asesiad o'r effaith ar y gymuned
- Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg
- Asesiad o'r effaith ar drefniadau teithio
- Asesiad effaith ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhan-ddeiliaid penodol ynglŷn â pha ysgol, neu ysgolion ddylai wasanaethu dalgylch Ysgol Felinwnda i'r dyfodol, drwy geisio barn ar yr opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1 -** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog
- **Opsiwn 2 -** Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd
- **Opsiwn 3 -** Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd
- **Opsiwn 4 –** Opsiwn amgen (Cyfle i ymatebwyr gynnig opsiwn amgen)

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiwn "galw heibio" ar 7 Hydref 2024, yng Nghanolfan Bro Llanwnda, er mwyn rhoi cyfle i ran-ddeiliad ofyn cwestiynau ac i dderbyn eglurder ar unrhyw agwedd oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda. Roedd yna hefyd gyfle i'r rhai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Mynychodd 6 o bobl y sesiwn galw heibio.

### 3.3 Canlyniadau'r ymgynghoriad

Derbyniwyd 11 ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion gan breswylwyr dalgylch Ysgol Felinwnda, Cyrff Llywodraethol ynghyd ag ymateb gan gynrychiolwyr darparwyr gofal plant ac addysg feithrin lleol.

Cyflwynir isod grynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr opsiynau a gynigwyd o fewn y ddogfen ymgynghori ynghyd ag unrhyw opsiynau amgen. Yn dilyn hynny, cyflwynir crynodeb o'r themâu cyffredinol a gododd yn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd yn **Atodiad 1.**

### 3.4 Sylwadau ar yr Opsiynau:

**Cefnogaeth i Opsiwn 1 – Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog**

Opsiwn 1 dderbyniodd y mwyaf o gefnogaeth, gyda 5 allan o'r 11 o ymatebwyr yn ei nodi fel opsiwn ffafredig. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys:

- Y byddai'n "Gwarchod Ysgol fach wledig trwy anfon y plant i Ysgol Llandwrog"
- Y cysylltiad cryf sydd wedi bodoli dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog
- Y byddai'n sicrhau parhad yn y cysylltiad â'r dilyniant naturiol rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda (a leolir yng Nghanolfan Bro Llanwnda), ac Ysgol Llandwrog.
- Y byddai'n dod a dau ddalgylch tebyg ynghyd. Dalgylch presennol Ysgol Felinwnda yn un gwledig, fyddai'n ymdebygu efo naws a natur dalgylch Ysgol Llandwrog.
- Y byddai'r opsiwn yn ffafrio a diogelu Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda a Chanolfan Bro Llanwnda orau.

**Cefnogaeth i Opsiwn 2 – Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd**

Ffafriwyd yr opsiwn i drosglwyddo'r dalgylch yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd gan 2 allan o 11 o'r ymatebwyr. Nodwyd mewn 1 ymateb bod rhan helaeth o ddysgwyr yr ardal eisoes yn mynychu Ysgol Bontnewydd a bod hynny'n batrwm sydd wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd. Nodwyd yn yr un ymateb mai Ysgol Bontnewydd fydda nhw fel rhieni yn dymuno gweld eu plentyn yn mynychu. Bu i ymatebydd arall nodi eu bod yn ffafrio opsiwn 2 gan y byddai'n rhoi'r opsiwn i rieni ddewis ysgol gymunedol (fel Ysgol Bontnewydd), sydd ddim yn ysgol sydd â statws eglwysig (fel Ysgol Llandwrog).

**Opsiynau Amgen**

Bu i 3 allan o 11 o'r ymatebwyr nodi'r opsiwn 'Arall' fel opsiwn ffafriedig. Mae'r opsiynau amgen a'u manteision, fel y nodwyd gan yr ymatebwyr, wedi eu nodi yn y tabl isod.

| | **Opsiwn Amgen** | **Manteision a nodwyd gan yr ymatebwyr** |
|---|---|---|
| A | *"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd"* | *"Bydd yr opsiwn hon yn sicrhau parhad rhyddid dewis trwy sicrhau fod statws dalgylch yn parhau i effeithio Ysgol Llandwrog a Ysgol Bontnewydd mewn ffordd gyfartal, a bydd poblogaeth Dalgylch Felinwnda yn elwa o'r hawl cryfach i le a'r cynnig cludiant mewn perthynas a'r ysgol o'u dewis. Mae poblogaeth cymharol fychan Dalgylch Felinwnda, a hyblygrwydd o ran mynediad i ddisgyblion alldalgylch i ysgolion yng Ngwynedd yn golygu na fydd effaith sylweddol o ran gallu cynllunio llefydd o fod a dalgylchoedd Ysgol Bontnewydd a Llandwrog yn gorgyffwrdd. Nid oes unrhyw rwystr deddfwriaethol i dalgylchoedd orgyffwrdd."* |

| | | |
|---|---|---|
| B | "...Opsiwn 3 yn cael ei addasu ar sail yr ardal a'r gymuned wledig" | *"Dylai unrhyw ffin sy'n cael ei gwneud rhwng dwy ardal fod yn weladwy ac yn ddealladwy i bawb – ac yn synhwyrol i'r ardal a'r gymuned."* |
| C | *"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. Gan ddilyn y ffordd o Afon Gwyrfai i Gylchfan Llanwnda, byddai'r aneddiadau i'r dwyrain o'r ffordd (Pentrefi Dinas a Llanwnda) yn ymuno a dalgylch Bontnewydd, gyda'r ardal wledig i'r dwyrain o'r ffordd yn ymuno a dalgylch Llandwrog."* | *"Mi fyddai'r dadansoddiad y drafnidiaeth yn gliriach, gan fod modd i'r mwyafrif o'r ardal ddilyn llwybr diogel i'r ysgol.<br>Mi fyddai yn sicrhau bod yna un cylch meithrin wedi ei leoli o fewn naill ddalgylch.<br>Mi fyddai yn dangos ymroddiad Plaid Cymru i gefnogi ysgolion gwledig.<br>Mi fyddai'r opsiwn yma yn agosáu at 50% o aneddiadau yn trosglwyddo i naill ddalgylch.<br>Mi fyddai trefnu cludiant yn gliriach i'r sir, gan nad y byddai angen trefnu bysiau i Bontnewydd a gan annog plant yr ardal wledig i ddefnyddio'r cludiant i Ysgol Llandwrog byddai'r sir yn dangos eu bod yn cymryd camau positif i leihau lefelau traffic yn y pentref, gan wella diogelwch cymunedol a lleihau lefelau carbon."* |

**3.5 Themâu Cyffredinol:**

**Trefniadau Teithio**

Dywedodd un ymatebydd eu bod yn byw'n agosach at Ysgol Bontnewydd, ac y byddai cael eu cynnwys o fewn dalgylch Ysgol Bontnewydd yn golygu y byddent yn gallu cerdded neu feicio'n ddiogel i'r ysgol.

Nododd rhai nad oeddent wedi eu hargyhoeddi mai Opsiwn 1 fyddai efo'r oblygiadau mwyaf o ran costau teithio mewn realiti, gan nodi y byddai gwir gostau unrhyw opsiwn yn ddibynnol ar *"yr union niferoedd a lleoliad disgyblion a'u dewis o ysgol, a faint fydd yn teithio i ysgol y tu allan i'r dalgylch – pa bynnag opsiwn a ddewisir."*

**Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda**

Nodwyd mewn ymateb gan gynrychiolwyr darpariaeth addysg a gofal plant lleol taw dymuniad Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda fyddai cael eu cynnwys o fewn dalgylch Ysgol Llandwrog, fel yr unig gylch sy'n bwydo'r ysgol. Nodwyd na fyddai Opsiwn 2 (trosglwyddo'r dalgylch i ddalgylch Ysgol Bontnewydd) yn sicrhau hyfywdra'r Cylch gan fod Cylch Meithrin eisoes yn bodoli ar safle Ysgol Bontnewydd. Nodwyd yr un pryderon am Opsiwn 3, gan y byddai'n golygu fod Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda wedi ei leoli o fewn dalgylch Ysgol Bontnewydd. Nodwyd pryder na fyddai Opsiwn 3 yn sicrhau cynaliadwyedd y Cylch, a'r sgil effaith ariannol a chymunedol allai hynny ei gael ar y Ganolfan. Roedd y sefydliad hefyd yn siomedig nad oedd asesiad effaith ar y Cylch wedi ei gynnwys yn y ddogfennaeth ymgynghoriad. Nododd un ymatebydd eu bod yn siomedig na ystyriwyd dalgylch y cylch lleol gan fod Cylch Dinas a Llanwnda yn "*ffrwd hynod o bwysig sy'n bwydo Ysgol Llandwrog*".

**Capasiti Ysgol Bontnewydd**

Roedd rhai ymatebwyr yn nodi pryderon am ddiffyg capasiti yn adeilad newydd Ysgol Bontnewydd i dderbyn rhagor o ddysgwyr. Nododd un ymatebydd bryder y gallai gweithredu opsiwn 2 neu 3 olygu fod dysgwyr yn trosglwyddo i ysgol fydd mewn cyfnod trosiannol o adeiladu am gyfnod o 2 flynedd neu fwy.

**Tueddiadau hanesyddol**

Amlygwyd mewn un ymateb fod canran helaeth o boblogaeth dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes wedi bod yn mynychu Ysgol Bontnewydd dros y 5 mlynedd diwethaf.

*"....Mae poblogaeth Dalgylch Felinwnda eisoes wedi bod yn gwneud dewis ynglŷn a'r ysgol i'w mynychu ers blynyddoedd, gyda mwyafrif llethol yn dewis ysgolion all-dalgylch. Mae cyfartaledd o 64%* [o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda] *dros y 5 mlynedd ddiwethaf (3.1) wedi dewis Ysgol Bontnewydd a chyfartaledd o ychydig dros 12% wedi dewis Ysgol Llandwrog...."*

**Gwarchod ysgolion gwledig**

Derbyniwyd rhai ymatebion oedd yn pwysleisio'r angen i warchod ysgolion gwledig fel Ysgol Llandwrog.

*"Gwarchod Ysgol fach wledig trwy anfon y plant i Ysgol Llandwrog."*

*"Rhaid sicrhau dyfodol i ysgolion wledig fel Llandwrog ac mae hwn yn rhoi cyfle gwych i eganhu ardal yr ysgol yma. Rhaid cynnwys pentrefi clwstwr sydd â gwreiddiau yn y gymuned ar pentrefi gyda lefel uchel o iaith Gymraeg yn ardal ysgol Llandwrog er mwyn sicrhau ffyniant yn y iaith a fod pentrefi cyfagos yn parhau i fod yn Gymraeg."*

### 3.6 Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae'n eu gwneud ar y Gymraeg, fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd cwestiynau penodol ychwanegol yn ymwneud a'r effaith ar y Gymraeg.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu nodi yn y tablau isod. Mae'r sylwadau isod yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle na dderbyniwyd caniatâd i gyhoeddi'r ymatebion). Mae'r testun a aralleiriwyd wedi ei ***amlygu***.

| **D1: Yn eich barn chi, pa effeithiau, os o gwbl (positif neu andwyol) y byddai'r opsiynau yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| Dim gwahaniaeth effaith.<br>Mae dynodiadau Ysgolion Bontnewydd a Llandwrog yr un fath, ac mae'r proffiliau yn debyg iawn. Rhagwelir fod yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn gyson ar draws y 3 Opsiwn gyn y ddogfen ymgynghori a'r Opsiwn amgen gynigir yn yr ymateb hwn. |
| • ***Byddai effaith andwyol ar y Cylch Meithrin yn gallu arwain at golli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.*** |
| Gyda iaith iard mor hawdd yn newid i Saesneg mae'n ysgol Gymraeg fel Llandwrog yn gallu hybu yr iaith yn well gyda disgyblion di Gymraeg yn gael eu trochi yn yr iaith |

| **D2: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r opsiynau er mwyn sicrhau eu bod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| Blaenoriaethu ysgol Llandwrog a sicrhau fod pentrefi gwledig yn gwasanaethu ysgol wledig |

| **D3: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r opsiynau er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| *[Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.]* |

### 3.7 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

### 3.7.1. Gwerthuso'r Opsiynau

Gweler isod yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer dyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda. Cynigiwyd Opsiwn 4 ac Opsiwn 5 gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog |
| **Opsiwn 2** | Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd |
| **Opsiwn 3** | Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol  Bontnewydd |
| **Opsiwn 4** | *"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd"* |
| **Opsiwn 5** | *"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. "* |

Mae'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymgynghorai ar yr opsiynau unigol wedi eu crynhoi yn **Atodiad 2.**

Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau effaith, cwblhawyd gwerthusiad o'r opsiynau uchod er mwyn crynhoi rhagoriaethau pob opsiwn.

Mae copi o'r gwerthusiad opsiynau llawn wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3.**

### 3.7.2 Yr Opsiwn Ffafriedig

Yn dilyn gwerthuso'r holl opsiynau, yr opsiwn a argymhellir fel yr opsiwn ffafredig yw:

*"Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd"*

Mae'r tabl isod yn nodi'r rhesymau'n gryno dros ffafrio Opsiwn 2, ac yn sgil hynny wrthod pob un opsiwn arall:

| Opsiwn | Disgrifiad | Rheswm dros ffafrio/ddiystyru |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog | • Rhagwelir costau cludiant uwch (o'i gymharu ag Opsiwn 2 a 3)<br>• Nid Ysgol Llandwrog yw'r ysgol agosaf at y mwyafrif o gartrefi y dalgylch (62% yn agosach at Ysgol Bontnewydd).<br>• Nid yw'r opsiwn yn cyd-fynd a dewis presennol mwyafrif dysgwyr y dalgylch. Mae 57% o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd. Dim ond 25% o'r dysgwyr sy'n dewis mynychu Ysgol Llandwrog. |
| **Opsiwn 2 *Yr Opsiwn Ffafriedig*** | Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd | • Byddai'r opsiwn yma'n galluogi i holl ddysgwyr dalgylch Felinwnda aros gyda'i gilydd.<br>• Byddai'r opsiwn yn cyd-fynd â dewis presennol mwyafrif o ddysgwyr y dalgylch (57% o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd)<br>• Ysgol Bontnewydd yw'r ysgol agosaf at y mwyafrif o gartrefi'r dalgylch (62% o gartrefi'r dalgylch yn agosach at Ysgol Bontnewydd).<br>• Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cynnig costau cludiant is na'r holl opsiynau eraill (ac eithrio Opsiwn 3 - Rhagwelir costau cludiant o oddeutu £55,000 y flwyddyn gydag Opsiwn 3 yn ogystal). |
| **Opsiwn 3** | Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd | • Yn ddarostyngedig i ddewis rhieni, gallai'r opsiwn yma'n arwain at rannu dysgwyr dalgylch Felinwnda. |
| **Opsiwn 4** | *"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd"* | • Gall cynllunio darpariaeth cludiant mewn dalgylch o'r math hwn (dalgylch deuol) arwain at gostau cludiant uwch (o'i gymharu ag Opsiwn 2 a 3) gan y bydd gofyn darparu cludiant i ddysgwyr y dalgylch i 2 ysgol wahanol.<br>• Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i gynllunio llefydd ar gyfer plant y dalgylch, a gall dalgylch ddeuol wneud y dasg o gynllunio llefydd yn fwy heriol o ran eglurder niferoedd. |
| **Opsiwn 5** | *"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. "* | • Rhagwelir y byddai costau cludiant uwch (o'i gymharu ag Opsiwn 2 a 3)<br>• Yn ddarostyngedig i ddewis rhieni, gallai'r opsiwn yma'n arwain at rannu dysgwyr dalgylch Felinwnda. |

### 3.7.3 Asesiadau Effaith

Cyhoeddwyd asesiadau effaith ar y gymuned, trefniadau teithio a'r iaith Gymraeg fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliwyd asesiad pellach o'r holl opsiynau, gan gynnwys yr opsiynau amgen ychwanegol (Opsiwn 4 a 5), er mwyn rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad.

Mae crynodeb o ganlyniad yr asesiadau o effaith yr opsiwn ffafriedig i'w gweld isod, ac mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn **Atodiad 4.**

**Asesiad Effaith ar y Gymuned**

Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda gyfan i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y gymuned. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Bontnewydd, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai dalgylch Felinwnda gyfan yn cael ei drosglwyddo i ddalgylch Bontnewydd. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Nid yw'r asesiad yn rhagweld effaith negyddol uniongyrchol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda yn deillio o'r cynnig i addasu ffiniau dalgylch ysgol gynradd. Rydym yn croesawu'r cyd-weithio llwyddiannus sydd eisoes yn digwydd rhwng Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda ac Ysgol Llandwrog, ac nid yw'r Awdurdod yn dymuno y byddai addasu ffiniau dalgylch yr ysgol gynradd yn cael effaith ar y cydweithio llwyddiannus hwn. Byddwn fel Awdurdod yn monitro'r sefyllfa ac mi fydd y Cylch a'r gymuned yn gallu galw ar wasanaethau Cyngor Gwynedd i gefnogi petai unrhyw effaith negyddol yn deillio o'r cynnig, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

**Asesiad Effaith ar drefniadau teithio**

Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd byddai angen cynnig cludiant i blant sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol ddalgylch neu os yw llwybrau cerdded i'r ysgol yn beryglus. Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded gwbl addas i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Bontnewydd, rhagwelir y byddai costau cludiant o oddeutu £55,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r opsiwn yma. Golyga hyn fod costau cludiant is ynghlwm â throsglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i Ysgol Bontnewydd o'i gymharu a'r opsiynau amgen (ac eithrio Opsiwn 3 - Rhagwelir costau cludiant o oddeutu £55,000 y flwyddyn gydag Opsiwn 3 yn ogystal).

**Asesiad Effaith ar y Gymraeg**

Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith negyddol ar yr iaith a ddefnyddir gan y dysgwyr mewn cyd-destunau ffurfiol yn yr ysgol gan fod Ysgol Bontnewydd yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar yr iaith anffurfiol a ddefnyddir, gan fod 90% o ddysgwyr Ysgol Bontnewydd yn dod o gartrefi Cymraeg. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Bontnewydd.

## 4. Ystyriaethau Pellach:

Yn ogystal a'r asesiadau effaith a nodir uchod, aseswyd effaith yr opsiwn ffafriedig ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ogystal a'i effaith ar Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Cynhwysir yr asesiadau hyn yn **Atodiad 4**, a crynhoir eu casgliadau isod.

**Asesiad Effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol**

Bu i'r asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol nodi fod gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith negyddol ar y nodweddion cydraddoldeb megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Pe byddai'r cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael ei weithredu, yna bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i anghenion dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gan gynnwys materion hygyrchedd a chludiant. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar y nodweddion hyn.

**Asesiad Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol a gofynion y Ddeddf Llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i'r Cyngor ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

## 5. Casgliad

Argymhellir felly cymeradwyo'r opsiwn ffafriedig, sef trosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd. Deuir i'r casgliad mai'r opsiwn yma yw'r cynnig mwyaf priodol am y rhesymau a nodir yn adran 3.7.2 o'r adroddiad yma.

Mae'r argymhelliad i gymeradwyo'r opsiwn ffafriedig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau, a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn i'w weld yn **Atodiad 3.**

Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori **(Atodiad 1),** ystyrir fod yr opsiwn ffafriedig yn parhau i gynnig yr opsiwn gorau ar gyfer dyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda.

## 6. Camau Nesaf

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, dyma gamau nesaf y broses o adolygu'r dalgylch ynghyd ag amserlen amlinellol:

| Amserlen Amlinellol | Camau Nesaf |
|---|---|
| **Chwefror 2025** | Rhannu'r penderfyniad gyda'r holl ran-ddeiliaid perthnasol. |
| **1 Mawrth 2025** | Gweithredu'r cynnig i drosglwyddo dalgylch Ysgol Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd. |

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

**Prif Swyddog Cyllid:**

*"Nid oes dewis ond dod i benderfyniad ar y dalgylch, ac fel sy'n amlwg yn Asesiad Effaith Teithio mae cost ariannol i bob un o'r opsiynau. Nid wyf yn credu felly fod yna faterion ariannol penodol sydd angen eu dwyn i sylw'r Cabinet wrth bwyso a mesur yr opsiwn a ffafrir. Mae'r opsiwn a argymhellir ymysg y rhai â'r gost ariannol isaf."*

**Swyddog Monitro:**
*"Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."*

---

**Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1 –** Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad
**Atodiad 2 –** Crynodeb o sylwadau'r ymgynghorai ar yr opsiynau unigol
**Atodiad 3 -** Gwerthusiad Opsiynau
**Atodiad 4 –** Asesiadau Effaith
**Atodiad 5** – Sylwadau'r Aelod Lleol

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

**Dogfennau ymgynghori** – Adolygu Dalgylch Felinwnda